**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HIDCC/10848/24

Mair Eirian Roberts
Gwynedd Council

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

16 Ionawr 2025

Annwyl Gynghorydd Roberts,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 18 Rhagfyr ynghylch newidiadau i'r Rhyddhad Eiddo Amaethyddol (APR) a'r Dreth Etifeddiant (IHT).

Fel y gwyddoch, mae treth etifeddiant yn dreth a gedwir yn ôl sy'n cael ei goruchwylio gan Lywodraeth y DU. Fel rhan o'i Chyllideb, roedd yn rhaid i Lywodraeth y DU wneud penderfyniadau anodd iawn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r pryderon dwfn ar y mater, ac rwyf wedi cynnal trafodaethau gydag undebau ffermio Cymru, wrth geisio cael sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd eu pryderon yn cael eu clywed, a chael y sicrwydd hwnnw. Rwyf hefyd wedi amlinellu wrth Lywodraeth y DU bod yn rhaid i ni sicrhau nad yw newidiadau i Dreth Etifeddiant a Rhyddhad Eiddo Amaethyddol yn effeithio ar ddyfodol ffermio cynaliadwy yng Nghymru.

Mae'n anghywir nodi y bydd pob fferm sy'n werth dros £1 miliwn yn talu treth etifeddiant, felly rwy'n annog y cyngor i edrych ar y wybodaeth sydd ar gael gan Drysorlys y DU. Mae yna lawer o ffactorau ychwanegol a fydd yn berthnasol i bob busnes fferm yn unol â'u hamgylchiadau unigol, er enghraifft strwythur perchnogaeth y fferm neu unrhyw roddion a roddwyd i ddarpar etifeddion islaw'r trothwy trethu, a fydd yn penderfynu pa ffermydd fydd yn talu treth a'r swm dan sylw. Dyna pam ei bod yn bwysig ein bod yn dychwelyd at y data a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n seiliedig ar ffigurau profiant gwirioneddol diweddar, ac sy'n nodi na fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y rhan fwyaf o ffermydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn busnesau ffermio i gyflawni ein nodau cyffredin o gynhyrchu bwyd cynaliadwy, cyflawni ein hamcanion hinsawdd a natur, a chefnogi ein cymunedau gwledig. I'r perwyl hwn, fe wnaethom amddiffyn cyllideb Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) ar £238m ar gyfer 2025, yr un lefel â 2024. O ystyried y pwysau sylweddol rydym yn ei wynebu, nid oedd hyn yn hawdd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyhoeddwyd sawl cynllun ar gyfer 2025, gan roi cymaint o sicrwydd â phosibl i'n ffermwyr. Yn ogystal â hynny, yn ddiweddar fe wnes i gadarnhau buddsoddiad pellach o £14m ar gyfer y sectorau amaethyddiaeth a garddwriaeth yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs